

Penrhyn *Blathaon* ac Amgyffred yr Hen Gymry o Eithafion Gogledd Prydain

IWAN WMFFRE
Prifysgol Gatholig Lublin, Pwyl

Mewn deryn a elwir *Enweu Ynys Brydein* (EYB), ceir yr wybodaeth ganlynol:¹

Sef yv hyt yr ynys hon: o benryn Blathaon ym Brydein hyt ym penryn Penwaed yg Kerniw, sef yv hynny: nav can milldir. Sef yw y llet o Grugyll y Mon hyt yn Soram, pum can milldir yv hynny.

Dyddia'r deryn hwn – y cynharaf o blith fersiynau eraill a geir yn *Llyfr Coch Hergest*,² *Peniarth 50* a llawysgrifau eraill – o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg ac fe'i trafodwyd yn llawn gan Rachel Bromwich.³ Ar sail cyfeiriad at Fynyw fel archesgobaeth fe ddyddiwyd cyfansoddiad testun o EYB sydd ar glawr gan Bromwich i ganol y ddeuddegfed ganrif er iddi hefyd nodi bod elfennau tipyn yn hŷn na hynny, yn enwedig yr enwau lleoedd 'coll' yng ngogledd Prydain.⁴

Ceir darn tebyg yn rhoi mesuriadau Prydain yn hanesyn y brenin chwedlonol Dyfnwal Moelmud yn nhestunau Iorwerth o'r cyfreithiau Cymreig (sef rhai Gwynedd):

Ef a uessurus er enys hon o Penryn Blathaon em Pryden hyt em Penryn Penwaed eg Kernyu: sef yu henne, nau can mylltyr, a henne yu hyt er enys hon; ac o Grugyll y Mon hyt en Sorram eg glan Mor Ud, pypm can mylltyr, a henne yu llet er enys hon.⁵

Dyddir y llawysgrifau cynharaf o destun Iorwerth o'r cyfreithiau i'r drydedd ganrif ar ddeg.⁶ Cred Dafydd Jenkins i destun gwreiddiol Iorwerth gael ei gyfansoddi tua 1225 o dan deyrnasiad Llywelyn Fawr,⁷ er y dyddir hanesyn Dyfnwal Moelmud gan M. E. Owen i'r ddeuddegfed ganrif. Boed a fo am yr union ddyddiad, olrheindir testun gwreiddiol Iorwerth i Wynedd gan nad oes tystiolaeth o'i gymhwyso i ond ychydig o destunau Blegywryd (sef rhai Deheubarth) a'r rheini'n destunau sy'n llawer diweddarach.⁸ Ni cheir ychwaith ôl y stori yn nhestunau Lladin y cyfreithiau.⁹ Mae nodi Crugyll fel eithaf lled

¹ Fersiwn Llyfr Gwyn Rhydderch, dalen 600, R. Bromwich (gol.), *Trioedd Ynys Prydein / The Welsh Triads* (Caerdydd, 1978), t. 228.

² Gw. I. Williams, 'Enwau ac anrhyfeddodau Ynys Prydain (R.B.H. col. 600.)', *Buletin y Bwrdd Gwybodaeth Celtaidd*, 5 (1931), tt. 19–24.

³ Bromwich, *Trioedd Ynys Prydein*, tt. cxxiii–vii, 228–37.

⁴ Bromwich, *Trioedd Ynys Prydein*, tt. cxxiv, cxxvii.

⁵ A. Rh. Wiliam, *Llyfr Iorwerth* (Caerdydd, 1960), t. 59.

⁶ BL Cotton Calig. A.iii, NLW Pen. 29 (Llyfr Du'r

Waun), BL Cotton Titus D.ii, BL Add. 14931; D. Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Aberystwyth a Chaerdydd, 2000), t. 58.

⁷ D. Jenkins, *Cyfraith Hywel: Rhagarweiniad i Gyfraith Gynhenid Cymru'r Oesau Canol* (Llandysul, 1970), t. 8.

⁸ M. E. Owen, 'Royal propaganda: stories from the law-texts', yn T. M. Charles-Edwards, M. E. Owen a P. Russell (goln), *The Welsh King and his Court* (Caerdydd, 2000), t. 231.

⁹ H. D. Emanuel, *The Latin Text of the Welsh Laws* (Caerdydd, 1967).

Prydain gan EYB a hanesyn Dyfnwal Moelmud – sef ‘Mesuriadau Prydain’ (MP) – hefyd yn awgrymu bod y testun uchod wedi ei ysgrifennu o safbwynt Gwynedd.

Nid oes fawr o ddirgelwch ynglŷn â lleoliad Crugyll, sef Rhosneigr yn Sir Fôn, na *Soram*, sef Sarre ger Thanet yng Nghaint. Ond gormod yw'r 500 milltir a roddir am led Prydain yn MP am y 300 milltir sy'n gwahanu'r ddau le mewn gwirionedd. Nid oes fawr o ddirgelwch ychwaith ynglŷn â lleoliad penrhynau *Blathaon* na *Penwaed*, sef eithaf gogleddol Caithness ac eithaf de-orllewinol Cernyw, a'r tro hwn mae'r pellter a roddir gan MP yn lled agos at hyd Prydain o Land's End i John o' Groats.

Gellir tybied yn lled ddiogel taw ffynhonnell y pellterau a roes awdur MP oedd *De Excidio Britanniae* gan Gildas, yn dyddio o'r chweched ganrif, lle nodir hyd o 800 milltir a lled o 200 milltir i Brydain.¹⁰ Dywed N. J. Higham fod Gildas ei hunan wedi ailadrodd y mesuriadau a roddwyd gan Paulus Orosius yn ei *Historiarum adversus Paganos Libri VII*, a ddyddiai o 417 O.C., lle rhoddir yr un mesuriadau yn union o hyd a lled Prydain (ond i Gildas nodi nad oedd mesuriadau'r lled yn cyfrif penrhynau – a ddeallir fel Cernyw a Chaint gan Higham).¹¹ Y tebyg, felly, yw i fesuriadau hyd a lled Prydain ddeillio o ffynonellau Rhufeinig o gyfnod yr ymerodraeth ac nad gwybodaeth frodorol hynafol sydd yma.

Beth am enwau'r eithafion? Dechreuwn gyda Chrugyll a *Soram*. Nid oes anhawster gyda Chrugyll, sy'n cyfeirio at afon, traeth a phorth ar lannau gorllewinol Môn, ychydig filltiroedd i'r gorllewin o Aberffro, llys brenhinoedd a thywysogion Gwynedd. Ni ellir cyfrif Crugyll yn eithaf i Fôn yn yr un ffordd y gellid ystyried Caerdybi yn borth eithaf gorllewin Môn neu Gemais yn borth eithaf gogledd Môn. Yn wir, mewn sawl testun Cymreig o'r Oesau Canol nodir Cemais (Porth Gemais)¹² o dan ei hen enw, sef Porth Wygyr, yn eithaf gogleddol Cymru (gw. isod).

Beth wedyn am *Soram*, a gysylltir â Sarre heddiw? Mae'r ffurf *Soram* yn haeddu eglurhad – a sylwer ar y ffurf *Saram* yn nhestun Colan o'r cyfreithiau¹³ – ond nid rhaid i ni amau'r gosodiad taw Sarre oedd *Soram*. Pentref bychan dibwys ydyw Sarre yn gyfagos â'r Isle of Thanet, trwyn dwyreiniol Caint. Heddiw saif Sarre ryw bum milltir o'r môr i'r gogledd, a rhyw ddeg milltir o'r môr i'r dwyrain ac mae lle i ryfeddu nad ystyriodd awdur MP sôn yn uniongyrchol am yr Isle of Thanet, sy'n cadw'r hen enw Brythoneg ar benrhyn dwyreiniol eithaf Caint. Yn wir, cadwyd yr enw yn ei ffurf Gymraeg reolaidd, Taned, ymysg traddodiadau Cymry'r Oesau Canol. Ceir yr ymadrodd canlynol yn *Armes Prydein*: 'o Dyuet hyt Danet'.¹⁴ Yma rhoddir teyrnas Dyfed a phenrhyn Taned fel eithafion lled Prydain. Gan y gwyddys y cyfansoddwyd *Armes Prydein* yn ystod teyrnasiad Hywel Dda yng nghanol y ddegfed ganrif gellir gweld bod y pellter o Ddyfed i Daned yn gweddu'n dda i nodi lled Prydain i rywun o ddeheubarth Cymru. Os ydym yn gallu teimlo'n hyderus y dewiswyd Crugyll fel eithaf lled Prydain oherwydd safbwynt awdur o Wynedd yn arbennig, pam Sarre yn hytrach na Thaned? Sylwer taw porthladd ac nid

¹⁰ M. Winterbottom, *Gildas: The Ruin of Britain and Other Works* (London and Chichester, 1978), t. 89.

¹¹ N. J. Higham 'Old light on the Dark Age landscape: the description of Britain in the De Excidio Britanniae of Gildas', *Journal of Historical Geography*, 17 (1991), tt. 364–5; N. J. Higham, *The English Conquest: Gildas and Britain in the Fifth Century* (Manchester, 1994), tt. 99–100, 111.

¹² a Phorth Gefneis] yn J. Morris-Jones a T. H. Parry-

Williams (goln), *Llawysgrif Hendregadredd* (Caerdydd, 1933), t. 19

¹³ Jenkins, *Cyfraith Hywel*, t. 39.

¹⁴ I. Williams, *Armes Prydein o Lyfr Taliesin* (Caerdydd, 1955), t. 6. Er i'r *Historia Brittonum* ddweud taw Saesneg yw *Taned* a taw'r enw Cymraeg oedd *Ruoithm* (tarddiad anhysbys), nid oes lle i amau nad yr enw Celtaeg a gadwyd yma, gw. A. L. F. Rivet a C. Smith, *The Place-names of Roman Britain* (London, 1979), tt. 468–9.

penrhyn oedd Porth Wygyr, eithaf gogleddol Cymru yn nhraddodiad y Gogynfeirdd, a taw porthladd oedd Crugyll hithau ac, o ganlyniad, naturiol oedd cyferbynnu porthladd yn y gorllewin gyda phorthladd yn y dwyrain. Hynny sy'n cyfrif am ddewis Sarre yn hytrach na Thaned. Ac os yw Sarre heddiw yn fan gymharol ddibwys yn bell o'r arfordir, nid felly y bu hi erioed. Mae'r enw Saesneg Isle of Thanet yn awgrymu yr amgylchynid y penrhyn presennol gan fôr ar un adeg ac, yn wir, dyna oedd y sefyllfa ers llawer dydd yn ôl haneswyr, gyda Sarre y pryd hwnnw ar lannau dwyreiniol swnd cul a wahanai Taned oddi wrth y tir mawr, swnd a enwid Wantsum. Safai Sarre ar ochr ynys Taned o geubalfa a groesai Wantsum i ymuno â ffordd Rufeinig a arweinai yn syth at Gaergaint. Gellid meddwl fod Sarre ar un adeg yn lanfa i longau a anelai at Gaergaint, ond mae cofnodion yn sôn am Richborough (*Rutupiae*), rhyw bum milltir i'r dwyrain yng ngenau Wantsum, fel prif borthladd Caergaint ac, yn wir, un o brif borthladdoedd Prydain yn ystod y cyfnod Rhufeinig.

O ganlyniad i leidio cynyddol Wantsum credir y gorfodwyd cefnu ar safle Richborough erbyn y seithfed ganrif, a sonnir wedi hynny am lanfeydd yn Sandwich¹⁵ ac yn Nhaned, a hyd yn oed Fordwich ar Afon Stour, yn nes i fyny o dipyn na Sarre, i ddadlwytho cerrig i eglwys gadeiriol Caergaint yn y ddeuddegfed ganrif.¹⁶ Ni sonnir am Sarre fel glanfa yn y cofnodion a gadwyd ond mae'r safle yn gredadwy fel man glanio onid porthladd i Gaergaint mewn cyfnod rhwng y bumed ganrif a'r unfed ganrif ar ddeg: dyna'n ddiamau bwysigrwydd Sarre i awdur MP. Disgrifir y safle ar wefan 'Sailing in Kent' fel a ganlyn:¹⁷

If you sailed the North Kent coast in the first century, or even as late as the fifteenth century, you would have been able to sail all the way round the Isle of Thanet through the Wantsum Channel! In Roman and Anglo Saxon periods the Wantsum was a broad tidal channel, rather like the River Swale today, which had a double tide which met near the present village of Sarre. Minster was a thriving port and the channel was used regularly by all craft sailing between the English Channel and London, with Richborough guarding its south entrance and Reculver its north entrance. However by the thirteenth century the large areas of salt marsh that flanked the Wantsum had made such inroads that only a narrow channel remained. More and more of the channel became silted up, causing great problems for ships seeking to reach the port of Sandwich. Today all that remains is the narrow course of the River Stour between Fordwich and Pegwell Bay, navigable only by boats of modest size, and the small stream River Wantsum, which enters the Thames Estuary just east of Reculver and joins the Stour south east of Sarre.

Ceubalfeydd yn unig oedd yn cysylltu Ynys Taned â'r tir mawr hyd tua 1486 pan awdur-dododd y Senedd godi pont yn Sarre.¹⁸

Gwelwn, felly, yn MP na chyfeirir at begynau mwy hynafol a thraddodiadol lled Prydain fel Porth Wygyr a Thaned, ond at ddau borthladd a ystyrir yn arwyddocaol gan yr awdur, sef Crugyll a Sarre. Ond pan ddeuir at hyd Prydain nid at borthladdoedd y cyfeirir o gwbl, sy'n awgrymu cyfuniad o wahanol ffynonellau i'r deryn fel cyfanwaith. Hoffwn yn awr drafod enwau'r ddau benrhyn *Penwaed* a *Blathaon* yn fwy gofalus.

¹⁵ Sonir am *Aber Santwaic* yn *Armes Prydein* yn y ddegfed ganrif, Williams, *Armes Prydein*, t. 7.

¹⁶ Valerie A. Maxfield, *The Saxon Shore: A Handbook* (Exeter, 1989), tt. 136-45.

¹⁷ www.btinternet.com/~kentnet/sailkent.

¹⁸ www.naturegrid.org.uk/ng-htnl/reculver/rm-1250.

Dengys B. F. Roberts fod gwybodaeth am *Penwaed* yn lled adnabyddus mewn llawys-grifau Cymraeg Canol, boed yn y cyfreithiau, y brutiau, chwedlau neu mewn barddoniaeth.¹⁹ Cyfeiria *Penwaed* at Land's End yng Nghernyw, a gyfrifir yn ben eithaf gorllewin Prydain: *Pedden an Wolas*, 'pen y wlad', oedd yr enw Cernyweg ond rhagflaenid yr enw hwn gan yr enw *Penwith* sydd yn awr yn enw ar yr hwndrwd lleol. Ymddrinnir â tharddiad *Penwaed* ~ *Penwith* gan Roberts,²⁰ ac, ar ôl pwysu a mesur y gwahanol darddiadau a roddesid gan wahanol ysgolheigion, ymddengys iddo ffafrio tarddiad yr ail elfen o air Cymraeg *gwaedd*, gynt **gwoedd*. Ond ni all y fath darddiad egluro'r ffurfiau Cernyweg gyda *-with*, *-wed* neu *-waeth* gan y disgwylasid ffurf debyg i **Pen(w)oth* i gyfateb i **gwoedd*, cymh. C. *gwaed*, Cern. *goug*, *goose* a *gūdz* [W. Jordan yn R. R. M. Gendall, *A Students' Dictionary of Modern Cornish: English-Cornish* (Menheniot, 1990; argraff. 1991), s.v. blood; E. Lhuys, *Archaeologia Britannica* (1707), 10b, 231a].²¹ Am y ffurfiau ar *Penwith* a geir yng Nghernyw, rhydd J. E. Gover y ffurf *Penwed* ym 1194 a dadleua Padel y dylid tarddu'r enw o elfen a roddai **-wed* yn y Gymraeg ac, yn wir, canfyddwn gyfatebiad Cymraeg yn enw'r cantref *Penweddig*, sef – sylwer – cantref eithaf Deheubarth yng nghyfeiriad y gogledd, cantref a dwaenid weithiau fel *Cantref Gwarthaf*.²² I esbonio'r ffurf Gymraeg Canol *Penwaed* – sef Cymraeg Modern **Penwaedd* – rhaid tybied i'r enw gael ei gopïo o lawysgrif a ddynodai <e> gyda'r ligatwr <ae>, amrywiaeth cyffredin yn Lladin y Canol

¹⁹ B. F. Roberts, 'Pen Penwaedd a Phentir Gafran', *Llen Cymru*, 13 (1981), tt. 278–81 (278).

²⁰ B. F. Roberts, 'Pen Penwaedd a Phentir Gafran', tt. 279–80.

²¹ Nid yw'r amrywiadau rhwng *-woe-* a *-we-* yn y Gymraeg a roddasai B. F. Roberts (ar ôl I. Williams, *Pedair Keinc y Mabinogi* (Caerdydd, 1930), t. 1260, PKM o hyn allan) yn argyhoeddi:

1) Enghraifft unigol sydd o CC. *Arlethwood* ym Mabinogi *Llyfr Gwyn Rhydderch* am yr enw cantref *Arlethwood* (Sir Gaernarfon) a gellir ei chymharu'n hawdd ag orgrall yr e.p. *lorwoerth*, P. C. Bartrum, *Early Welsh Genealogical Tracts* (Caerdydd, 1966), t. 47 (Jesus College 20), M. Richards, *Breudwyf Ronabwy* (Caerdydd, 1948), t. 1, sydd, yn ddiagamysniol, yn sefyll am *lorwoerth* (enw a gynnwys yr elfen *berth* > *-ferth* > *-werth*).

2) Nododd I. Williams y safai yr e.p. HG. *Elgued*, *Llyfr Llandaf*, t. 150, am yr e.p. *Eluoid* oedd mewn siartr arall ar yr un tudalen (enw a geir o dan y ffurfiau *Elguoid*, *Eluoid*, *Eluoed*, *Eluod* yn *Llyfr Llandaf* a hefyd fel enw sant Llydaweg a ysgrifennir HL. *Aeluidus*, LIC. *Alvoez*, *Elvoez*, *Algouez*, LL. *Aloué*, a.y.b., J. Loth, 'Les noms de saints Bretons', *Revue Celtique*, 29 (1908), tt. 229, 231, ac *Elvoez* yn *Lannetvoez* (Plouigneau, Finistère)). Bymtheng mlynedd yn ddiweddarach esboniai I. Williams, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, 1945), t. 52, y gellid tarddu'r e.p. *Elwedd* yn *Cadainetwedd* (Sir Gaernarfon) ac yn *Llanekwedd* (Sir Faeysfed) o'r enw Hen Gymraeg hwn (gan hyd yn oed ddyfeisio ffurf Gymraeg modern **Elwedd* i esbonio *Elwedd*). Ond gallasai fod taw enw fel **Elfedd* a esgorodd ar *Elwedd* (cymh. yr e.p. *Tegfedd* a hefyd yr enw sant LL. *Elvoez* yn *Sant Elve* (Fl. *Saint Effletz*, Lanvéoc, Finistère) J. Loth, 'Les noms de saints Bretons', t. 281, na ddylid ei gymysgu â'r enw LL.

Elvoez uchod). Y mac M. Richards, *Enwau Tir a Gwlad* (Caernarfon, 1998), t. 157, yn tarddu'r enw *Elwedd* yn achos *Llanekwedd* o *Eilwedd*, santes oedd yn ferch i Frychan Brycheiniog.

Nid yw'r amrywiaeth rhwng *mynyddoedd* a *mynyddedd* a nododd I. Williams [PKM, t. 260] i'w gymharu â'r enghreifftiau uchod a ragflaenir gan <w>, J. Morris-Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913), t. 114. Amrywiaeth rhwng *-woe-* a *-wee-* sydd yn y Gymraeg ac nid rhwng *-woe-* a *-wee-*, e.e. *chwoer*, *gwae*, *gwaed*, *gwaedd*, *gwaelod*, *gwawo*, a.y.b., J. Morris-Jones, *A Welsh Grammar*, t. 114, yr un amrywiaeth a welir yn yr e.p. HG. *Guoidnerth* ~ *G(u)aidnerth* ~ *Guednerth* ~ *Guidnerth*, a sail am y Gymraeg modern *Gwaednerth*, sef *gwaedd* + *nerth*, ac nid am enw tybiedig **Gwydnerth* wedi ei seilio ar *gwydd* fel yn achos *Gwyddno*, gw. I. Wmffre, 'Language and history in Cardiganshire place-names' (Traethawd Ph.D. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, Abertawe, 1998), cyf. 2, 131 (mac J. Loth, *Revue Celtique*, 41 (1924), t. 205, yn rhoi enghraifft o ddrysau mewn Hen Lydaweg rhwng *guaid-* a *guid-* yn yr e.p. *Guaidwale* ~ *Guidwale*). Y tebyg yw bod yr enw Llydaweg *Elvoez* hefyd yn cynnwys yr un elfen â *gwaedd* (mewn HL. *uuoet*, LIC. *goez*, na ddylid ei chymysgu â HL. *mohet*, *moet*, LIC. *moed*, er y gallasant ill dwy ymddangos fel *-woed* mewn enwau personol mewn Llydaweg Canol, J. Loth 1924, tt. 204–7; L. Fleuriot a C. Evans, *A Dictionary of Old Breton: Historical and Comparative* (Toronto, 1985), tt. 519, 573).

²² J. E. Gover, *The Place-names of Cornwall* (1948), 1–2, Llyfrgell Genedlaethol Cymru misc. vol. 53, t. 582; O. J. Padel, *A Popular Dictionary of Cornish Place-names* (Penzance, 1995), tt. 105–6, 136; Wmffre, 'Language and history in Cardiganshire place-names', cyf. 2, tt. 1404–5.

Oesau, ac amrywiaeth sydd ar glawr i *Penwith*, gw. HS. *Penwaethstort* a hefyd y ffurf *Penwaed* 1185.²³ Yn hytrach na cheisio tarddu *Penwaed* o elfen *gwaedd*, gwell derbyn na ddeallwyd yr amrywiaeth llawysgrifol gan gopiyydd(ion) MP. Mae hyn yn awgrymu nad oedd yr enw gwreiddiol **Penwedd* yn adnabyddus iawn i'r Cymry erbyn y ddeuddegfed ganrif, a dyma'n bendant y rheswm y down o hyd i ffurfiau Cymraeg yn cynnwys <g> fel *Pengwaed* yn *Culhwch ac Olwen* a *Penngwaed* ~ *Pengwayd* yn y Brutiau a rhai testunau o'r Cyfreithiau.²⁴

Mae eisiau mwy o drafodaeth ar yr enw *Blathaon*, sy'n cyfeirio – mae'n amlwg – at un o benrhynau Caithness. Ceir y ffurf *Blathaon* nid yn unig yn MP, fel y gwelwyd eisoes, ond hefyd yn *Culhwch ac Olwen* yn y rhestr hirfaith o ddilynwyr Arthur wrth sôn am yr arwr Drem ab Dremhdydd a welai wybedyn 'ym Penn Blathaon' pan oedd yntau yn llys Arthur yng Nghernyw,²⁵ a thrachefn yn y fersiynau Cymraeg o'r Brutiau, o dan y flwyddyn 1114, pan wysiodd Henri I fyddinoedd o bobman yn ei deyrnas, gan gynnwys yr Alban, er mwyn darostwng Gruffudd ab Cynan a rheolwyr Cymreig eraill oedd yn gyndyn i blygu iddo.²⁶

Nid yw'r ffurf *Blathaon* yn rhwydd ei dadansoddi yn y Gymraeg, ond os cymerwn y ffurf *Balaon* a ddigwydd yn y ddwy linell ganlynol mewn cerdd ddarogan o'r enw 'Dyogogan Awen' yn *Llyfr Taliesin* gallwn fynd ymhellach. Dywed y ddwy linell:

diwed plo coll Iago o tir Prydyn
gôlat uerô dyderyd hyt Valaon²⁷

Ymddrinnir â'r gerdd gan M. Haycock,²⁸ ac er yr ansicrwydd ynglŷn â'r llinell gyntaf, yn enwedig â'r 'gair' anesboniadwy *plo*, sonnir am golled rhyw Iago o Brydyn (h.y. tir y Pictiaid) a'r wlad yn gyffro hyd 'Falaon'. Cywirir *Valaon* yn *Flathaon* gan M. Haycock²⁹ ond ymddengys hyn yn anghywir i mi gan na ellir tarddu *blathaon* o ddim yn y Gymraeg, na'r Gelteg o ran hynny. Ond, o'r ochr arall, gellir cydio *Balaon* â *balawon*, sef hen lluosog *belau* (yn union fel y cawn fod *cenawon*, gynt *canawon* mewn Cymraeg Canol, yn lluosog *cenau*). Diddorol yw nodi i J. Gwenogvryn Evans ysgrifennu, 'Blataon is clearly a scr[ibal] err[or] for Balaon', yn ei olygiad o *Llyfr Taliesin*, er ei fod yn cysylltu *Balaon* a'r gair *bala*.³⁰ Yn ddiweddarach derbyniodd I. Williams y ffurf *Valaon* gan ei chysylltu â 'belau'.³¹

Ymddengys felly fod *Penrhyn Balawon* yn cyfeirio at fan a nodweddid gan rywogaeth y belau (Ll. *Martes martes*). Mae'r belau yn rhyw fath o wenci fawr sy'n perthyn i deulu'r *Mustelidae* sydd hefyd yn cynnwys y wenci, y carlwm, y ffwlbart, y daeargi, y dyfrgi a

²³ Gover, *The Place-names of Cornwall*, t. 662.

²⁴ *Penn Pengwaed*, R. Bromwich a D. S. Evans, *Culhwch and Olwen* (Caerdydd, 1992), t. 4; o *Bēnryn Pengwaed*, T. Jones, *Brut y Tywysogion ... Peniarth MS 20 Version* (Caerdydd, 1952), t. 59; o *Bēnryn Pengwaed*, T. Jones, *Brut y Tywysogion ... Red Book of Hergest Version* (Caerdydd, 1955), t. 78; *Pengwayd*, T. Jones, *Brenhinedd y Saesson* (Caerdydd, 1971), t. 120; *Pen Gwaed*, D. Jenkins, *Llyfr Colan* (Caerdydd, 1963), t. 39; *Pengwaed*, M. Richards, *Cyfreithiau Hywel Dda o Llawysgrif Coleg yr Iesu LŴ Rhydychen* (Caerdydd, 1957), t. 119.

²⁵ Bromwich ac Evans, *Culhwch and Olwen*, t. 10.

²⁶ Ni cheir cyfeiriad at hyn yn nhestunau Lladin y Brutiau, J. Williams, *Annales Cambriae: Rolls Edition* (London, 1860), t. 35.

²⁷ J. G. Evans, *The Book of Taliesin* (Llanbedrog, 1910), t. 70, ll. 21–2.

²⁸ M. Haycock, 'Llyfr Taliesin: astudiaethau ar rai agweddau' (Traethawd Ph.D. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1983), tt. 449–53.

²⁹ Haycock, 'Llyfr Taliesin: astudiaethau ar rai agweddau', t. 451.

³⁰ J. G. Evans, *Facsimile and Text of the Book of Taliesin* (Llanbedrog, 1910), t. xxiv. Dangosodd J. Morris-Jones yn glir, *Y Cymmrodor*, 28 (1918), t. 57, na allai leoliad J. G. Evans o *Balaon* weddu â'r Wirral (sir Gaer) gan taw ystyr *bala* yw 'not mouth of a river but, its "efflux from a lake"'.
³¹ I. Williams, *Armes Prydein*, t. 34.

chreaduriaid tebyg. Rhaid gofyn a oes cysylltiad rhwng *Penrhyn Balawon* a'r enw Gaeleg *Cataibh* (S. *Caithness*) gan y dywed Watson taw ystyr *Cataibh* yw 'ymysg y cathod' (sef hen ffurf leoliadol luosog HWydd. *cat(t)* 'cath').³² Cofier bod Caithness, hyd ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg, yn cynnwys Swydd Sutherland hefyd: sef popeth i'r gogledd o linell yn cydio Dornoch yn y dwyrain i Ullapool yn y gorllewin.³³ Diau bod gwahaniaeth rhwng belau a chath o'n safbwynt ni. Ond mae GPC [s.v. belau] yn rhoddi tarddiad *belau* o'r gwreiddyn Hen Gelteg **bhel-* sy'n cyfateb i'r Lladin *fēles* 'cath'.³⁴ Ac ategir yr amheuaeth i bobl gynt weld tebygrwydd rhwng cath a mathau eraill o famaliaid rheibus, swnllyd a nosweithiol gan dystiolaeth ddigamsyniol galw'r ffwlbart (Ll. *Mustela putorius*) yn *polecat* gan y Saeson [OED s.v. polecat] a *cath goed* gan y Cymry [GPC s.v. cath], a'r Ffrancod yng ngogledd America yn yr ail ganrif ar bymtheg yn galw brochlwynogod neu racwniaid yn *chats sauvages* (ac yn wir adnabyddid yr Indiaid Erie ganddynt fel *La Nation du Chat* neu *La Nation des Chats*, gan gyfeirio at racwniaid (Ll. *Procyon lotor* o deulu'r *Procyonidae*).³⁵ At hyn gellir ychwanegu fod yr enw *kaz koad*, sef 'cath goed' wedi disodli'r hen enw *gwiñver* am wiwer dros ran helaeth o Lydaw. Mae lle i gredu bod *Balawon* a *Cataibh* ill dau yn cyfeirio at yr un creadur, a chan y cydnabyddir yn gyffredinol fod y gair *cat* yn yr Wyddeleg a'r Aeleg yn deillio o'r Lladin *cattus* (yn gymwys fel y Gymraeg *cath* a'r Llydaweg *kaz*) anodd gweld *Cataibh* fel enw sy'n perthyn i'r haen hynaf o enwau brodorol ynys Prydain. Gan hynny gellid awgrymu taw yr enw *Balawon* sy'n cynrychioli y ffurf gynhenid ar enw'r ardal ac, yn wir, yn rhagflaenu'r enw Gaeleg *Cataibh*. Os derbynnir y ddadl hon, rhaid bod enw Brythoneg gwreiddiol yr ardal yn cynnwys adlewyrchiad o'r gwreiddyn **bhel-*, yn yr ystyr 'anifeilaidd' a drafodwyd yma; mabwysiadwyd yr enw hwn gan y Cymry yn y ffurf *Balawon*, ond bu i'r Gwyddelod, o eisiau gair tebyg, ei gyfieithu i'r ffurf *Cataibh* i gyfleu'r un ystyr, ac o ganlyniad dylem gyfieithu Penrhyn *Balawon* fel 'penrhyn y cathod gwyllt' (Ll. *Felis silvestris* o deulu'r *Felidae*, anifail sydd erbyn hyn wedi ei groesi â chathod dof ac wedi ei gyfyngu i anialdiroedd yr Alban). Fel y dywedwyd eisoes mae'n amhosibl penderfynu ble'n union yn Caithness y dylid lleoli Penrhyn *Balawon* gan y gellid dewis rhwng penrhynau Dunnet Head, John o' Groats, Duncansby Head a hyd yn oed Noss Head. Rhydd cofnodion Ptolemaeus yr enwau *Tarouedoim ákron* ac *Orkàs ákra* am y cyntaf, *Ouirouedroim ákron* am y trydydd ac *Oueroubtíoum ákron* am y pedwerydd.³⁶ ni cheir yr un enw tebyg i *Balawon* yn y ffynonellau clasurol.³⁷

³² W. J. Watson, *The History of the Celtic Names of Scotland* (Edinburgh, 1926), tt. 29–30, 100. (Gellid ei galw hefyd yn ffurf dderbynnol gan y gwyddys bod swyddogaeth leoliadol i'r cyflwr derbynnol mewn Gwyddeleg.)

³³ Peter G. B. McNeill a Hector L. McQueen (goln), *Atlas of Scottish History to 1707* (Edinburgh, 1996), t. 449.

³⁴ Mae'n demtasiwn i gysylltu'r Ff. *belette* 'gwenci' â'r un gwreiddyn **bhel-* ond bod yr awdurdodau ar y Ffrangeg, A. Rey (gol.), *Dictionnaire Historique de la Langue Française* (Paris, 1992), s.v. belette, yn dweud bod *belette* wedi ymddangos yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg yng ngogledd-orllewin Ffrainc yn lle'r enw hyn *mustele*, *mostoile* (a gadwyd yn nwyrain a de Ffrainc) ac y tardd *belette* o'r Ff. *bel* 'hardd' mewn ymgais i oleddfu natur wyllt a ffyrnig y creadur hwnnw.

³⁵ B. G. Trigger, *Handbook of North American Indians*, 15 (Washington, D. C., 1978), t. 416.

³⁶ Rivet a Smith, *The Place-names of Roman Britain*, tt. 115, 434, 469, 497, 507.

³⁷ Cyfeiria A. T. Holder, *Alt-celtischer Sprachschatz* (Leipzig, 1896), cyf. 1, t. 335, at y ffurf *Balawo* ar geiniog o adeg brenhinoedd Merofingaid Ffrainc yn y *Revue Numismatique* (1864), t. 407. Mae ffurf yn cyfeirio at enw lle ond mae ffurf fodern *Baillou* (Loir-et-Cher) ynghyd â ffurfiau *Balawo* y seithfed ganrif a *Baliau* 796, a rydd A. Dauzat a C. Rostaing, *Dictionnaire Étymologique des Noms de Lieux en France* (Paris, 1963), t. 47, yn awgrymu **Balawo* yn hytrach na'r ffurf **Balawo* sydd ei eisiau i gysylltu â belau. Gan fod y gwreiddyn **bhel-* yn golygu 'disglair, gwyn', J. Pokorny, *Indogermanisches etymologisches Wörterbuch* (Bern, 1959), tt. 118–20 mae'n hollol bosibl fod enwau gyda'r gwreiddyn hwn yn cyfeirio nid at creadur a welwyd felly – e.e. boliau gwynion gwencwn a rhai cathod – ond at ddisgleirdeb y tir.

Troer yn ôl at MP: sut y cafwyd y ffurf *Blathaon* o *Balawon*? Mae'r esboniad yn ymwneud â'r ffaith – a dderbynnir yn gyffredinol bellach – fod dylanwadau Seisnig i'w canfod ar ddysg y Cymry yn sgil cydymffurfiaid yr Eglwys Gymreig yn 768 ag amseru'r Pasg yn ôl y ffurf Rufeinig gyfoes (amseru y glynid wrtho gan yr Eglwys Seisnig er ei sefydlu ym 597). Mae'r dylanwad hwn i'w weld nid yn unig yn nefnydd ffynonellau Seisnig, er enghraifft yn yr *Historia Brittonum* 829/30,³⁸ ond hefyd mewn tystiolaeth fewnol o'r modd y dylanwedid ar gonfensiynau ysgrifennu'r Hen Gymraeg gan gonfensiynau'r Hen Saesneg. Un arwydd o'r dylanwadau Seisnig yw camddehongli'r llythyren rwnig Hen Saesneg *thorn* <*p*> fel <*p*> ac felly cawn HG. *papep* am **papeth* 'pa beth?' gan law G llawysgrif Juvenus; e.p. HG. *Guipno* am **Guilhno* 'Gwyddno' yn llawysgrif Harley 3859; a hyd yn oed Hlyd. *arlup* am **arluth* 'arlludd' yn llawysgrif Orléans 221.³⁹ Mae tystiolaeth hefyd fod cymysgu rhwng y llythyren rwnig Hen Saesneg *wynn* <*p*> a <*p*> gyffredin mewn Hen Gernyweg yn y *Vocabularium Cornicum* a gyfansoddwyd yn yr unfed ganrif ar ddeg, e.e. *alped*, *bedepen* am **alped*, **bedepen* (cymh. C. *allwedd*, *bedwen*),⁴⁰ *pilecur*, *pedresif* am **pi lecur*, **pedresif*⁴¹ heb sôn am y llythyren rwnig <*p*> am <*p*>, e.e. *piphit* am **piphit* (cymh. C. *pibydd*). Da y dywedodd I. Williams, 'Gŵyr pawb am y cymysgu sydd ynddo rhwng *p*, *þ*, *p*, *w*, *h*, *b*.'⁴² Y fath ddrwsch, credaf, sy'n esbonio'r ffurf *Blathaon* am *Balawon*: deallwyd bod llythyren Saesneg yn y cysail ond camgopiwyd <*th*> drwy gamddeall *wynn* <*p*> fel *thorn* <*p*>, gan nodi *Blathaon* yn lle **Blawaon*. Erys **Blawaon* yn ffurf garbwl, mae'n wir, ond eto saif fel llygriad cwbl gredadwy o *Balawon*. Wrth ddilyn y trywydd hwn down i'r casgliad fod y ffurf *Blathaon*, trwy'r <*th*>, yn datgelu cysail a ysgrifennwyd gyda chonfensiynau Hen Saesneg a, thrwy gymysgu trefn y llythrennau, yn dangos fod un o'r ysgrifenyddion heb syniad o'r hyn a gopi'ai.

Y casgliad o'r amryw destunau Cymraeg Canol yw taw y ffurf *Blathaon* a *Blataon* oedd y ffurfiau a adwaenid orau yng Nghymraeg y ddeuddegfed ganrif. Awgryma anghywirdeb y ffurf *Blathaon* nad oedd y Cymry ond yn lled gyfarwydd â'r traddodiad erbyn hynny ac y'i lledwyd yn sgil poblogrwydd hanesion Prydain gan Sieffre o Fynwy ar ôl 1140. Y mae ffurf ar yr enw a geir yn nhestun Peniarth 18 o'r Brutiau – hoff destun Thomas Jones yn ei olygiad o deulu llawysgrifau Llyfr Coch Hergest o'r Brutiau, *Brut y Tywysogyon ... Red Book of Hergest Version* tt. 1–11 – yn peri anesmwythyd: ysgrifennwyd *Balathawon* gan Ancr Llanddewi Brefi tua 1350, a chan ei bod fel ffurf yn nes at ein cysail tybiedig *Balawon* rhaid sôn amdani. Mae dau bosiblwydd i'w hesbonio. Yn gyntaf, bod gan yr Ancr adnabyddiaeth o'r ffurf *Bala(w)on* a *Blathaon* ac iddo eu cyfngymysgu. Yn ail – ac er gwaethaf meddwl uchel T. Jones o gywirdeb llawysgrif Peniarth 18 – gallwn gymryd *Balathawon* fel ffurf hyd yn oed mwy carbwl na *Blathaon* (nid yw presenoldeb <*w*> rhwng <*a*> ac <*o*> yn peri unrhyw syndod, cymh. CC. *athraon* ~ *athrawon* a *canaon* ~ *kanawon*,⁴³ â *Balaon* Llyfr Taliesin). Efallai nad oes eisiau synnu ychwaith y gallasai copiwyd ychwanegu <*a*> rhwng <*b*> ac <*l*>. Yn nhestun Colan o'r cyfreithiau,

³⁸ D. N. Dumville, 'The historical value of the *Historia Brittonum*', *Arthurian Literature*, 6 (1986), tt. 24–6. Mae hir ddisgwyf cyhoeddiad 'England and the Celtic world in the ninth and tenth centuries' (darlith O'Donnell) i gael ychwaneg o farn Dumville ar y pwnc hwn.

³⁹ H. McKee, *The Cambridge Juvenus Manuscript Glossed in Latin, Old Welsh, and Old Irish* (Aberystwyth, 2000), t. 69.

⁴⁰ Eugene van Tassel Graves, 'The Old Cornish vocabulary' (Traethawd Ph.D. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Columbia, Efrog Newydd, 1962), t. 19.

⁴¹ Graves, 'The Old Cornish Vocabulary', 142–3, 265.

⁴² I. Williams, 'Vocabularium Cornicum', *Boletín y Bwrdd Gwybodaeth Celtaidd*, 11 (1941), tt. 1–12, 92–100 (t. 10).

⁴³ Morris-Jones, *A Welsh Grammar*, t. 40.

llawysgrif Peniarth 30, sy'n dyddio o tua chanol y drydedd ganrif ar ddeg, ceir y ffurf *Balathaon* 'a'r a gyntaf wedi'i thanddotio a'i dileu'.⁴⁴

Yn wyneb cyffredinoled y ffurf *Blathaon* yn nhestunau'r cyfnod hwn a'r ffaith fod eisiau eglurhad llai cymhleth i ddeillio *Balatha(w)on* o *Blathaon* nag o gyfuniad o *Balawon* a *Blathaon*, mae'n well gennyf fi y ddamcaniaeth gyntaf, sef taw llygriad pellach o *Blathaon* yw *Balatha(w)on*: er na ellir bod yn bendant o hyn ac y gallai hefyd gynrychioli ffurf fel **Balawaon* sydd hefyd yn gredadwy agos i *Balawon*.

Mae'n edrych yn lled debyg yn yr achos hwn fod y Cymry wedi cadw hen enw eithaf gogleddol ynys Prydain, rhywbeth na ddylid rhyfeddu gormod yn ei gylch os ydym yn derbyn bod iaith y Pictiaid erioed wedi bod yn lled-ddealladwy i siaradwyr y Frythoneg a oedd gynt yn byw yn neheubarth yr Alban. Mae enghreifftiau eraill o gadwedigaeth enwau cynhenid o brydyn (sef gwlad y Pictiaid) yn nhraddodiad ysgrifenedig Cymraeg y Canol Oesau diweddar, yn sicr yn achos *Celyddon* (Ll. Calidonia, Caledonia) ac yn debygol yn achos *Mynydd Bannog* (S. The Mounth, The Grampians).⁴⁵ Sut a phaham y cadwyd yr enwau hyn? Gan eu bod wedi ymsefydlu yn lled gynnar yn *nhopos* y traddodiad Cymraeg am leoedd gwyllt, anial, anghysbell a phellennig. Ond yn achos *Balawon* haws credu i'r enw gael ei gadw oherwydd ei fod yn enw 'pegynol' ar eithaf tiriogaeth yn union fel y cadwyd enwau cynhwynol Ynys Wyth (Isle of Wight) a Chaint (Kent). Rhaid credu y cyferbynnid enwau 'pegynol' ymhob diwylliant fel ymadrodd cwmpasog sy'n mynegi cyfanrwydd tiriogaeth, fel gyda'r frawddeg Saesneg 'From Land's End to John o'Groats' (= trwy Brydain benbaladr): yn wir, y frawddeg hon yw gwir gyfatebiaeth Saesneg 'O benrhyn Balawon hyd ym mhenrhyn Penwedd yng Nghernyw' Cymry'r Canol Oesau.

Er mwyn dangos pa mor gyffredin yw'r math hwn o gyferbynnu pegynol rhoddaf amryw enghreifftiau eraill o ffynonellau Cymraeg. Yn ystod y ddeuddegfed ganrif soniai'r Cymry am eu gwlad hwy drwy gyferbynnu enwau 'pegynol'. Yr enghraifft gynharaf yw eiddo Giraldus Cambrensis, *Descriptio Cambriae* yn James Dimock (gol.), *Giraldi Cambrensis: Opera* (Llundain, 1868), cyf. 6, t. 165, sy'n nodi pegynau eithafol Cymru:

Longitudo namque, a Portu Yoiger in Monia usque ad Portum Eskewin in Winta ... latitudo vero, a Porthmaur Meneviae ... usque Ridhelic ... Anglice Wiliford dicitur.⁴⁶

Cawn yr un pegyniad mewn ffynonellau Cymraeg rhwng Porthwygyr ym Môn (h.y. Cemais, Môn) a Phorthysgewin yng Ngwent (h.y. Portskeuett, Gwent) sy'n cyfateb i 'O Fôn i Fynwy' ein dyddiau ni. Mae'n bosibl ei fod yn ymadrodd mwy cartrefol yng Ngwynedd gan fod tystiolaeth o gyferbynnu pegynol ar led i'w gael mewn ffynonellau o dde-orllewin Cymru:

hid in Aber Taradir rac trausev Prydein
Kimry oll inyeu kyfluit⁴⁷

Mae'r frawddeg ganlynol yn pegynu eithafion gororau Cymru a Lloegr ym marddonaieth Hywel ab Ywain:

⁴⁴ Jenkins, *Cyfraith Hywel*, t. 39.

⁴⁵ Yr wyl yn dadlau cyfatebiaeth *Mynydd Bannog* â'r Grampians yn fy erthygl 'Mynyddawc - ruler of Edinburgh?', *Studi Celtici*, 1 (2002), t. 97.

⁴⁶ Dywed G. Owen, *The Description of Pembrokeshire* (Llundain, 1897), 2, t. 372, taw man mwyaf deheuol

cantref Elfael a gwlad Powys oedd Rhydelyg ac y safai ger Llancigon (Sir Frycheiniog).

⁴⁷ A. O. H. Jarman, *Llyfr Du Caerfyrddin gyda Rhagymadrodd, Nodiadau Festunol a Geirfa* (Caerdydd, 1982), t. 29.

o byrth Kaer hyd Borth Ysgewin⁴⁸

Mae'r frawddeg ganlynol fel petasai'n cymysgu'r pegynu ar hyd gyda'r pegynu ar led:

o Ryt ar Taradyr hyt ym Porth Vygyr y Mon⁴⁹

Canai Gwynfardd Brycheiniog y llinellau canlynol:

am hyfryd kymryd Kymry benn baladyr
am Aber Taradyr yn tremynnu
am Byrth Ysgewin yn goresgynnu
am Borth Wygyr y Mon yn menestru⁵⁰

Diddorol yw sylwi bod Cymry'r ddegfed ganrif megis yn cofio nid yn unig begynau daearyddol Prydain ond hefyd begynau tiriogaeth y Brythoniaid fel yn y llinell ganlynol o *Armes Prydein*:

o Vynaw hyt Lydaw yn eu llaw yt vyd
o Dyuet hyt Danet wy bieiuyd⁵¹

Sef o Fanaw Gododdin (Clackmannanshire) hyd Lydaw ac o Ddyfed hyd Daned (Caint).⁵²
Yn *Llyfr Taliesin* sonnir hefyd am

penrhyn Penwaedd hyd Llwhch Rheon⁵³

Sef o Land's End (Cernyw) hyd Loch Ryan (Galloway). Ym *Mreuddwyd Maxen* rhoddir

o Vor Rud hyt ym Mor Iwerdon⁵⁴

sef Cymru a Lloegr, ac er i esbonwyr diweddarach ddeall Môr Rhudd (neu Môr Udd) fel Môr Ffrainc (S. the English Channel) dadleuodd I. Williams, *Breuddwyd Maxen* t. 25, taw at Fôr y Gogledd y cyfeiriai'r enw Môr Rhudd yn wreiddiol gan gymharu'r HW. *Irruadh* 'Norwy'. Mae hyn yn dwyn i gof begyniad llawer diweddarach o Gymru a Lloegr o eiddo'r porthmyn a nodwyd ym 1930:

o lan Mor Aberteifi i lan Mor Ffrainc⁵⁵

Yn *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy rhoddir

a Menuia urbe ... usque ad portun Hamonis⁵⁶

sef o Dyddewi i Southampton. Ychwanega Dumville fod y mathau hyn o ymadrodd yn arferol yn nhestunau Ffrancod Lloegr y cyfnod. Yn ail hanner y ddeuddegfed ganrif ychwanegodd mynach o Sawley (Sir Gaerefrog) y nodyn *A Totenes ad Catenes* sef 'o Totnes (Dyfnaint) hyd Caithness' i lawysgrif o lyfr Gildas *De Excidio Britanniae*⁵⁷ a chanfyddwn yr un pegynau mor gynnar â 1130 wrth i Henry o Huntingdon sôn am heolydd brenhinol Prydain:

⁴⁸ *Hendregadredd*, t. 317 ll. 8.

⁴⁹ *Book of Taliesin*, t. 73 llau. 13-15.

⁵⁰ *Hendregadredd*, t. 207 llau. 29-32.

⁵¹ Williams, *Armes Prydein*, t. 14.

⁵² K. H. Jackson, *The Gododdin: The Oldest Scottish Poem* (Edinburgh, 1969), tt. 70-4.

⁵³ *Book of Taliesin*, t. 34 llau. 3-4.

⁵⁴ I. Williams, *Breuddwyd Maxen* (Bangor, 1920), t. 9.

⁵⁵ Wmffre, 'Language and history in Cardiganshire place-names', cyf. 2, t. 1368

⁵⁶ Roberts, 'Pen Penwaedd a Phentir Gafran', t. 280.

⁵⁷ D. N. Dumville, 'Celtic-Latin texts in northern England, c. 1150-c. 1250', *Celtica*, 12 (1977), tt. 36-7.

Quartus maior ceteris incipit in Catenes et desinit in Totenes, scilicet a principio Cornugallie in finem Scocie.⁵⁸

Beth a ddysgwn o'r cyfeiriadau at benrhynau *Blathaon* a *Phenwoaed* yn MP? Yn gyntaf, bod traddodiadau gwir a dilys yn llawysgrifau Cymreig y Canol Oesau sy'n tarddu o gyfnod cyn y Gymraeg, cyn bodolaeth y Cymry fel cenedl ar wahân i'r Brythoniaid eraill, ond yn ail, mae'n awgrymu bregusrwydd traddodi gwybodaeth y Cymry (cofier taw trwy un copi yn unig y traddodwyd y *Gododdin* i ni).⁵⁹ Mae pob camgymeriad carbwl na chywirir gan gopiwydd llawysgrifau yn awgrymu i'r traddodiad hwnnw wanhau nes ei fod yn farw i bob pwrpas. Weithiau gellir amcanu dyddiad *post quem* i draddodiad farw ar lafar, fel y gwnaeth Graham R. Isaac gyda'r enw *Cunedda*,⁶⁰ ac mae'r dylanwadau Seisnig ar draddodi llawysgrifau yn y cyfnod Hen Gymraeg (800–1100) hefyd yn gallu bod yn fodd i awgrymu dyddio'r cyfnod pan beidiodd y traddodiadau Cymreig am begynau eithaf Prydain â bod yn draddodiadau cyffredin ar lafar. Oherwydd cyfansoddi MP, *Culhwch ac Olwen* a'r Brutiau yn y ddeuddegfed ganrif, a'u bod yn cynnwys yr enwau mewn ffurfiau carbwl, mae'n amlwg nad oedd traddodiadau'r Cymry yn y cyfnod hwnnw yn ddigon cryf i gofio taw *Balawon* a *Penwedd* oedd y ffurfiau cywir. Pe na buasai cyfeiriad at *Balaon* ym marddoniaeth *Llyfr Taliesin*, mae'n annhebyg y gallesid cynnig dehongliad rhesymol o'r ffurf *Blathaon*, nac amgyffred pa mor hen oedd y traddodiad y tu ôl i'r ffurf honno. Yr un yw'r hanes gyda *Penwoaed* pe na buasai'r ffurfiau *Penwith* a *Penweddig* gennym. Cael a chael fu hi i ni dderbyn sawl pwt o draddodiad a ystyriwn heddiw yn rhan bwysig o'n treftadaeth.

⁵⁸ D. Greenway (gol.), *Henry, Archdeacon of Huntingdon: Historia Anglorum/The History of the English People* (Oxford, 1996), t. 22.

⁵⁹ D. Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Aberystwyth, 2000).

⁶⁰ Graham R. Isaac, 'Cunedag', *Buletin y Bwrdd Gwybodaeth Celtaidd*, 38 (1991), tt. 100–1.